Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Y Gyllideb

Hydref 2009

## Geirfa

**Adolygiad cynhwysfawr o wariant:** **Adolygiad o wariant** drwy'r holl Lywodraeth a gynhaliwyd am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 1998, sy'n edrych ar holl amcanion, polisïau a gwariant adrannau. Cyhoeddwyd yr adolygiad cynhwysfawr diweddaraf o wariant yn 2007, a oedd yn amlinellu'r cynlluniau gwario ar gyfer 2008-09, 2009-10 a 2010-11.

**Adolygiad o wariant:** Mae adolygiadau o wariant yn pennu **terfynau gwariant adrannol** pendant am gyfnod o dair blynedd, a thrwy'r **cytundebau gwasanaeth cyhoeddus,** maent yn diffinio'r prif welliannau y gall y cyhoedd ddisgwyl eu gweld gyda'r adnoddau hyn. Ers yr **adolygiad cynhwysfawr o wariant** yn 1998, bu pedwar adolygiad o wariant yn 2000 (a oedd yn pennu'r cynlluniau gwario a'r cytundebau gwasanaeth cyhoeddus rhwng 2001-02 a 2003-04), yn 2002 (a oedd yn pennu'r cynlluniau gwario a'r cytundebau gwasanaeth cyhoeddus rhwng 2003-04 a 2005-06), yn 2004 (rhwng 2005-06 a 2007-08) ac yn 2007 (yn amlinellu'r cynlluniau gwario ar gyfer 2008-09, 2009-10 a 2010-11).

**Archwilydd Cyffredinol Cymru:** Archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, **cyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad**, cyrff y GIG a chyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**Arian / adnoddau wrth gefn:** Swm o arian neu adnoddau ar gyfer i amgylchiadau nas rhagwelwyd.

**Arian wedi'i neilltuo (hypothecated):** Arian sydd wedi'i **neilltuo** (*ring-fenced*) **,** ac mae'n rhaid ei wario ar wasanaethau neu gynlluniau penodol.

**Blwyddyn sylfaen:** Y flwyddyn a ddaw'n union cyn blwyddyn gyntaf **adolygiad o wariant.**

**Corff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad:** Corff sy'n cyfrannu at brosesau'r Llywodraeth, ond nid yw'n adran o'r Llywodraeth nac yn rhan o adran. Mae'r cyrff hyn yn gweithredu led braich o Weinidogion Cymru. Y cyrff cyfatebol yn y DU yw cyrff cyhoeddus anadrannol. Enghraifft o gorff o'r math hwn yw Cyngor Celfyddydau Cymru.

**Corff cyhoeddus anadrannol:** Corff sy'n cyfrannu at brosesau'r Llywodraeth, ond nid yw'n un o adrannau'r Llywodraeth nac yn rhan o un (er enghraifft, Asiantaeth yr Amgylchedd). Yng Nghymru, yr enw a roddir ar y rhain yn gyffredinol yw **corff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.**

**Cost cyfalaf:** Y gost i'r Llywodraeth o ariannu buddsoddiad – hynny yw, y gyfradd y bydd yn benthyca arian. Codir y gost hon ar adrannau er mwyn gwella pa mor agored ydynt wrth **gyfrifyddu adnoddau** ac annog defnydd effeithlon o asedau.

**Costau heb fod yn arian parod:** Costau lle nad yw arian parod yn cael ei drosglwyddo mewn gwirionedd, ond cânt eu cynnwys mewn cyfrifon er mwyn canfod gwir gost gweithgaredd (er enghraifft, dibrisiant mewn gwerth ffordd). Efallai na fydd angen taliad mewn arian parod o gwbl ar yr eitemau hyn (er enghraifft, taliadau **cost cyfalaf**), neu bydd angen taliad mewn arian parod mewn blynyddoedd diweddarach (er enghraifft, darpariaethau). Gweler hefyd **costau sydd bron yn arian parod.**

**Costau sydd bron yn arian parod:** Mae'r costau hyn yn ystyried y gwahaniaethau rhwng yr adnoddau a ddefnyddir a'r llif arian ar ddechrau a diwedd y flwyddyn ariannol. Er enghraifft, rhaid gwario ar gyflenwadau nwy/trydan wrth ddefnyddio tanwydd, ond efallai mai'n ddiweddarach, yn chwarterol, y gwneir y taliad mewn arian parod. Nid yw'n cynnwys costau **heb fod yn arian parod.**

**Cyfanswm y gwariant a reolir:** Swm yn y **terfyn gwariant adrannol** yw'r gronfa wrth gefn, nad yw'n cael ei ddyrannu ar gyfer rhaglenni adrannol. Mae'n darparu ar gyfer argyfyngau a digwyddiadau annisgwyl dilys.

**Cronfa Gyfunol Cymru:** I'r gronfa hon y rhoddir taliadau a derbyniadau i Gymru (os nad ydynt yn cael eu cyfeirio at rywle arall yn benodol). Mae'n gronfa niwtral i ddal yr arian cyhoeddus a ddyrennir i Gymru gan Lywodraeth y DU, drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a'r arian a geir o ffynonellau eraill.

**Cyfanswm y gwariant a reolir:** Cyfanswm y ddwy elfen yn y gyllideb, sef y **gwariant a reolir yn flynyddol** a'r **terfynau gwariant adrannol.**

**Cyfrifon:** Cyfres o ddogfennau sy'n cael eu creu i ddangos sut y mae cyrff ac adrannau wedi defnyddio'r adnoddau a oedd ar gael iddynt.

**Cyfrifon adnoddau:** Caiff cyfrifon adnoddau eu paratoi'n flynyddol ac maent yn cyflwyno canlyniadau ariannol yr adran am y flwyddyn ariannol berthnasol.

**Cyfrifyddu croniadau:** Dull o gofnodi incwm a gwariant yn ystod cyfnod cyfrifyddu. Rhoddir cyfrif am wariant neu incwm yn y flwyddyn y caiff ei dynnu / ei ennill, **ac nid** pan fydd yr arian yn newid dwylo.

**Cyllid heb ei neilltuo (unhypothecated):** Cyllid a ddyrannwyd heb gyfyngiadau o ran sut y dylid ei wario.

**Cyllideb ddrafft:** Cam cyntaf **proses y gyllideb** yng Nghymru. Rhaid i un o Weinidogion Cymru osod cyllideb ddrafft gerbron y Cynulliad Cenedlaethol erbyn 7 Hydref fan bellaf. Dylid pennu'r symiau o adnoddau ac arian y mae'r Llywodraeth yn cynnig eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol nesaf (ac fel arfer, symiau dangosol am y ddwy flynedd ddilynol). Mae

gan y pwyllgor craffu a'r Pwyllgor Cyllid gyfle i roi sylwadau ar y gyllideb ddrafft. Ni cheir gwneud cynnig yn y Cyfarfod Llawn mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft tan y bydd y Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi adroddiad arni.

**Cyllideb gynyddrannol:** Cyllideb a gaiff ei phennu naill ai drwy leihau neu gynyddu cyllideb y flwyddyn flaenorol, yn wahanol i **gyllidebu ar sail sero**, sy'n glanhau'r llechen ac yn dechrau o'r dechrau drachefn. Mae'n tueddu i arwain at gynnydd mewn cyllidebau dros amser, gan fod y gyllideb wedi'i seilio ar gyllideb y flwyddyn flaenorol fel man cychwyn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

**Cyllideb wedi'i chlustnodi yn y terfyn gwariant adrannol:** Y gyfran o'r **terfyn gwariant adrannol** y mae gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn llwyr drosti o ran dyrannu gwariant.

**Cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau:** Cyflwynodd hyn **arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol** i brosesau cyfrifyddu'r Llywodraeth. Y prif newidiadau oedd mabwysiadu dull o **gyfrifyddu croniadau** am holl wariant adrannau, yn ogystal â chynnwys dibrisiant a chost taliadau cyfalaf.

**Cyllidebu ar sail rhyw:** Y dull y bydd llywodraethau yn ei ddefnyddio i godi a gwario arian, gyda'r nod o sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut y dyrennir adnoddau cyhoeddus.

**Cyllidebu ar sail sero:** Dull o gyllidebu lle mae'n rhaid cyfiawnhau'r holl wariant ar gyfer pob blwyddyn ariannol newydd, yn hytrach na dim ond egluro'r symiau y gofynnir amdanynt yn ychwanegol at gyllid y blynyddoedd ariannol blaenorol.

**Cynnig cyllideb atodol:** Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno cynigion cyllideb atodol unrhyw bryd ar ôl i'r **cynnig cyllideb blynyddol** gael ei basio. Rhaid gosod cyllideb atodol os bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno symud symiau o arian rhwng **cwmpasau,** ehangu **cwmpas** sydd eisoes yn bodoli, creu **cwmpas** newydd, neu gynyddu symiau unrhyw adnoddau a gronnir ganddynt pan fydd ganddynt awdurdod i gadw'r symiau hynny o dan **gwmpas.** Mae angen i'r Cynulliad Cenedlaethol awdurdodi cynnig cyllideb atodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wariant afreolaidd.

**Cynnig cyllideb blynyddol:** Ym mhroses cyllideb Cymru: ar ôl ystyried y **gyllideb ddrafft,** mae gofyn i un o Weinidogion Cymru (o dan Reolau Sefydlog 27.17-27.20) gyflwyno'r cynnig cyllideb blynyddol ar neu cyn 3 Rhagfyr. Drwy wneud hyn, gwneir cais i'r Cynulliad awdurdodi'r adnoddau y gellir eu defnyddio, yr incwm y gellir ei gadw a'r arian y gellir ei dynnu o **Gronfa Gyfunol Cymru.** Ni cheir cyflwyno gwelliannau i'r cynnig cyllideb blynyddol; rhaid i'r Aelodau ymatal neu bleidleisio o blaid neu yn erbyn y cynnig.

**Cynnig a phenderfyniad ar y gyllideb:** Cynnig a phenderfyniad ar y gyllideb yw'r dull a geir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* i sicrhau cysondeb yn y gwariant o **Gronfa Gyfunol Cymru.** Rhaid cael o leiaf un **cynnig cyllideb blynyddol bob blwyddyn,** a gellir ategu'r cynnig hwn gyda **chynigion cyllideb atodol.** Dim ond un o Weinidogion Cymru a gaiff wneud cynnig, a rhaid cynnwys manylion y symiau o adnoddau sydd i'w defnyddio ar gyfer

gwasanaethau ac at ddibenion penodol, y symiau o adnoddau y gellir eu cadw wrth gefn, a'r symiau o arian y gellir eu rhoi o **Gronfa Gyfunol Cymru.**

**Cwmpas:** Disgrifiad sy'n nodi at ba ddibenion penodol y mae adnoddau wedi'u hawdurdodi yn y gyllideb. Caiff disgrifiadau o'r cwmpas a'r cyfyngiadau ar adnoddau eu nodi yn y **cynnig cyllideb blynyddol.** Mae'r cwmpasau'n cyfateb i'r **prif grwpiau gwariant**. Os oes cwmpas wedi'i nodi ar gyfer adnoddau, ni ellir defnyddio'r adnoddau hynny ac eithrio at y diben a ddisgrifir yn y cwmpas.

**Derbyniad:** Yn cynrychioli'r arian parod gwirioneddol a geir yn gyfnewid am ddarparu nwyddau neu wasanaethau, neu am werthu **asedau** cyfalaf.

**Dibrisiant:** Ffordd o fesur y modd y bydd **ased sefydlog** yn dod i ben, yn cael ei ddefnyddio neu fath arall o ddirywiad yn ei oes ddefnyddiol. Gall hyn fod o ganlyniad i ddefnydd, y ffaith fod amser wedi mynd heibio, neu oherwydd bod yr ased wedi dod i ddiwedd ei oes yn sgil newidiadau technolegol neu newidiadau yn y farchnad.

**Fformiwla Barnett:** Fformiwla sydd wedi'i seilio ar y boblogaeth ac sy'n cael ei defnyddio gan Lywodraeth y DU i ddyrannu i'r gweinyddiaethau datganoledig gyfran o'r **newidiadau** yn y gwariant a gynllunnir ar wasanaethau tebyg. Mae fformiwla Barnett yn cyfrifo maint y **newidiadau** i'r **gyllideb wedi'i chlustnodi** yn hytrach na chyfanswm y **gyllideb wedi'i chlustnodi.**

**Grant bloc:** Y grant bloc yw'r arian y bydd Senedd y DU yn cytuno i'w roi i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig. Yr arian hwn yw'r **gyllideb wedi'i chlustnodi yn y terfynau gwariant adrannol** a chaiff ei gyfrifo o'r llinell sylfaen bresennol gan ddefnyddio fformiwla Barnett.

**Gwariant refeniw:** Gwariant rheolaidd a gaiff ei ariannu drwy'r incwm presennol (hynny yw, nid drwy fenthyciadau). Mae'n cynnwys costau rhedeg o ddydd i ddydd gan gynnwys cyflogau staff. Mae taliadau benthyciadau ac ad-dalu arian a fenthyciwyd ar gyfer gwariant cyfalaf hefyd yn rhan o wariant refeniw.

**Gwariant a reolir yn flynyddol:** Ar y cyfan, mae'n fwy anodd rhagweld a rheoli gwariant sy'n rhan o'r gwariant a reolir yn flynyddol o'i gymharu â'r gwariant yn y **terfynau gwariant adrannol**. Oherwydd hynny, cytunir ar y gwariant a reolir yn flynyddol gyda Thrysorlys EM yn flynyddol, yn hytrach na'i bennu fel swm sydd wedi'i gyfyngu dros nifer o flynyddoedd. Mae'r gwariant a reolir yn flynyddol wedi'i seilio ar y galw, ac mae'n rhaid ei ddyrannu i'r rhaglen y'i clustnodir ar ei chyfer. At hynny, gellir cael rhagor o wariant a reolir yn flynyddol gan Drysorlys EM yn ôl y galw, tra bydd Trysorlys EM yn hawlio'n ôl unrhyw gyfran sydd heb gael ei wario.

**Gwariant ar raglenni:** Gwariant ac eithrio costau gweinyddol.

**Gwariant cyfalaf:** Gwariant ar **asedau sefydlog** (adeiladau, cyfarpar a thir) gyda'r nod o sicrhau manteision mewn cyfnodau cyfrifyddu neu gyfnodau o wariant yn y dyfodol, gan gynyddu capasiti, economi, effeithlonrwydd neu hyd oes ased sefydlog sydd eisoes yn bodoli. Mae asedau sefydlog yn dueddol o golli eu gwerth drwy **ddibrisiant** dros amser.

**Gwariant wedi'i neilltuo (ring-fenced):** Gwariant sydd ar gyfer rhaglen benodol, ac felly ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall.

**Hyblygrwydd diwedd blwyddyn:** Dull o drosglwyddo darpariaeth na chafodd ei gwario yng nghyllideb y terfyn gwariant adrannol o un flwyddyn i'r nesaf. Y nod yw osgoi sefyllfa lle bydd arian yn gorfod cael ei ddefnyddio neu ei golli. Mae hyn yn sicrhau bod modd defnyddio unrhyw arian nas gwariwyd yn hytrach na gorfod ei roi'n ôl i Drysorlys EM. Rhaid i Drysorlys EM gymeradwyo hynny os bydd arian hyblygrwydd diwedd blwyddyn i'w drosglwyddo a'i ddefnyddio'n ddiweddarach.

**Llinellau gwariant yn y gyllideb:** Caiff cyllideb Llywodraeth Cymru ei rhannu'n fanylach ar sawl lefel at ddibenion monitro a rheoli. Y llinellau gwariant yn y gyllideb sy'n rhoi'r lefel isaf o fanylder a chânt eu grwpio â'i gilydd i ffurfio **meysydd rhaglenni gwariant.**

Yng nghyllideb 2010-11, sylwer y bydd llinellau gwariant yn y gyllideb yn cael eu disodli gan 'Weithgareddau'.

**Meysydd rhaglenni gwriant:** Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i rhannu'n nifer o lefelau o fanylion at ddibenion monitro a rheoli. Meysydd rhaglenni gwariant yw'r ail lefel o fanylion o dan y **prif grwpiau gwariant** ac maent yn diffinio grwpiau gwahanol o wariant o fewn pob **prif grŵp gwariant**.

**Monitro canol blwyddyn:** Monitro gwariant adrannau yn ystod y flwyddyn ariannol yn erbyn y gyllideb y cytunwyd arni. Mae hyn yn golygu bod modd addasu'r adnoddau a ddyrannwyd er mwyn adlewyrchu amgylchiadau newydd yn ystod y flwyddyn.

**Newidiadau canol blwyddyn:** Newidiadau i'r gwariant a gaiff ei ddyrannu yn ystod blwyddyn y gyllideb – hynny yw, rhwng cyllidebau.

**Polisi ariannol:** Y modd y bydd y Llywodraeth yn gwario ac yn casglu refeniw er mwyn dylanwadu ar yr economi ac amcanion y Llywodraeth.

**Proses flynyddol y gyllideb:** Gellir rhannu cylch cyllideb Llywodraeth Cymru yn wahanol gamau: **y gyllideb ddrafft, y cynnig cyllideb blynyddol** a'r **cynigion cyllideb atodol.**

**Prif grwpiau gwariant:** Caiff cyllideb Llywodraeth Cymru ei rhannu'n fanylach ar sawl lefel at ddibenion monitro a rheoli. Y prif grwpiau gwariant sy'n rhoi'r lefel uchaf o fanylion ac maent yn cyfateb i bortffolios Gweinidogion neu i'w **cwmpasau.** O dan y prif grwpiau gwariant, nodir gwariant drwy **feysydd rhaglenni gwariant** a **llinellau gwariant yn y gyllideb.**

**Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru:** Mae Rhan 5 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn ymdrin â chyllid. Mae'n darparu ar gyfer creu **Cronfa Gyfunol Cymru** – i'r gronfa hon y gwneir taliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd taliadau o'r Gronfa er mwyn darparu rhaglenni'r Llywodraeth yn cael eu hawdurdodi gan **gynigion cyllideb blynyddol ac atodol** a gaiff eu mabwysiadu gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**Swyddfa Archwilio Cymru:** Y sefydliad sy'n cefnogi **Archwilydd Cyffredinol Cymru** i gyflawni ei ddyletswyddau.

**Taliadau cyfalaf:** Codir taliadau cyfalaf er mwyn brasamcanu costau defnyddio asedau wrth ddarparu gwasanaethau. Maent yn cynnwys costau defnyddio arian cyfalaf a chostau dibrisiant, ac maent yn cynrychioli'r costau cyfle a ddaw yn sgil clymu arian cyfalaf wrth ased penodol. Dull o gyfrifyddu adnoddau yw hwn ac mae'n sicrhau bod holl gostau gweithgareddau adrannol yn cael eu mesur.

**Terfyn gwariant adrannol wrth gefn:** Swm bychan wrth gefn, y tu allan i ddarpariaeth y terfyn gwariant adrannol. Fe'i cedwir yn ganolog i ymdrin ag argyfyngau a digwyddiadau annisgwyl dilys.

**Terfynau gwariant adrannol:** Fel rheol, caiff y rhain eu pennu dros dair blynedd fel rhan o **adolygiad o wariant** Llywodraeth y DU. Arian **heb ei neilltuo** yw'r rhan fwyaf o'r terfyn gwariant adrannol ac mae'n rhoi disgresiwn llwyr i Lywodraeth Cymru dros ei blaenoriaethau gwario (sef yr hyn a elwir yn eitemau sy'n rhan o'r **gyllideb wedi'i chlustnodi**). Penderfynir ar y newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer yr eitemau hyn drwy **fformiwla Barnett.**

**Terfyn gwariant adrannol heb ei glustnodi:** Y rhan o gyllideb Llywodraeth Cymru sydd wedi'i **neilltuo** (*ring-fenced*) at ddibenion penodol yn y **terfyn gwariant adrannol.**

**Termau real:** Gwerthoedd a addesir er mwyn ystyried chwyddiant cyffredinol mewn prisiau. Mae'n golygu bod modd cymharu gwariant rhwng gwahanol flynyddoedd heb i newidiadau mewn prisiau effeithio ar hynny.

**Vires:** Awdurdod cyfreithiol sydd gan gorff i gymryd unrhyw gamau penodol. Gellir darparu ar gyfer y camau hyn neu gyfyngu arnynt drwy statud, drwy gyfansoddiad y corff neu drwy awdurdod arall.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am wahanol elfennau'r gyllideb, cysylltwch ag **Dr. Eleanor Roy** o Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau (**Eleanor.Roy@Wales@GSI.Gov.UK**)

Gellir cael rhagor o wybodaeth am broses y gyllideb yn y cyhoeddiadau a ganlyn gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau:

- Proses y Gyllideb yng Nghymru
- Y Gyllideb Ddrafft
- Cynnig Cyllideb Blynyddol
- Mwy o hysbysiadau hwylus: Rhestr lawn o **hysbysiadau hwylus**.

MRS 08/2914 Jennifer King a Dr. Eleanor Roy

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@wales.gsi.gov.uk**